# Ein Bro

Newyddion

Ysgol Bro Hyddgen

News










Hydref 2015 / Autumn 2015

# Gair gan y Pennaeth / Letter from the headteacher

Annwyl riant/ofalwr,

Ar derfyn tymor prysur arall  hoffwn ddiolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.
 Hoffwn hefyd longyfarch plant yr ysgol wnaeth gymryd rhan yng nghyngerdd Sinffonia Cymreig ar y Campws Uwchradd a hefyd ym mherfformiad Iasoer ar y Campws Cynradd. Cadarnhaodd y ddwy noson hon bod talentau anhygoel yn yr ysgol gan y plant a hefyd gan y staff a fu wrthi'n eu dysgu. Roedd safon perfformio yn y ddwy gyngerdd yma'n wych.

Bydd Miss Alice Haslam yn ein gadael ddiwedd y tymor i fynd i ddysgu yn Ysgol Uwchradd Rhosnesni, Wrecsam. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddi am ei gwaith yn ystod ei chyfnod yn yr ysgol a dymuno'n dda yn ei swydd newydd. Bydd Mr Joseph Mitchell yn cymryd ei lle dros dro. Hefyd penodwyd Mrs Sian Speake fel cymhorthydd  ar y safle cynradd; hoffwn ei llongyfarch ar gael ei phenodi a'i chroesawu i'r ysgol. Mynd i deithio o gwmpas y byd mae Sian Lewis bydd hi'n ein gadael cyn y Nadolig; hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddi am ei gwaith a gobeithio y gwnaiff fwynhau yr antur newydd.

Fel y gwyddoch, mae Mrs Gwenfair Glyn wedi ymddeol erbyn hyn. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddi am bob cefnogaeth a gefais i yn bersonol ganddi ac hefyd am y blynyddoedd o wasanaeth a roddodd i'r ysgol.  Hoffwn ddymuno'r gorau iddi ar ei hymddeoliad.

Hoffwn groesawu pum plentyn newydd sydd yn dechrau yn y cyfnod sylfaen ar y pedwerydd o Ionawr a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb.

**Dafydd M B Jones**
Pennaeth
Ysgol Bro Hyddgen

Dear Parent/Carer,

At the end of another busy term I'd like to thank you for your continued support throughout the year.
I would also like to congratulate the pupils who took part in the Welsh Sinfonia Concert on the Secondary Campus and the production of Frozen on the Primary Campus. These two nights confirmed to me that we have very talented children and staff  who gave up their time for rehearsals. The standard of performance in both these concerts was excellent.

Miss Alice Haslam will be leaving us at the end of this term to start a new post in Rhosnesni High School, Wrexham. I'd like to thank her for her work during her time here and wish her well in her new post.  Mr Joseph Mitchell will be replacing her. Mrs Sian Speake was also appointed as a Learning Support Assistant in the primary campus. Miss Sian Lewis will be leaving us to travel around the world; I'd like to thank her for here hard work and wish her well on her adventures.

Mrs Gwenfair Glyn retired at the end of November. I'd personally like to thank her for her support and the years of service that she gave the school and wish her all the best on her retirement.

I'd like to welcome five new pupils starting in the Foundation Phase on January 4th.
I hope you will all have a Merry Christmas and a Happy New Year.

**Dafydd M B Jones**
Headteacher
Ysgol Bro Hyddgen

# Balchder Ein Bro




Braint o'r mwyaf oedd cael sefyll o flaen neuadd orlawn o ddisgyblion ac athrawon ym Mhrifysgol Bangor ddydd Mawrth, 9 Mehefin i dderbyn y wobr 'Cylchgrawn Ysgol Gorau' ar ran Ysgol Bro Hyddgen. Yn ogystal ag Ysgol y Creuddyn ac Ysgol Rhewl, enwebwyd yr ysgol am ein Papur Newydd tymhorol, 'Ein Bro'.

Anwiredd fyddai dweud mai gwaith un person yw Ein Bro. Mae'n waith tîm, yn ffrwyth llafur y disgyblion a'r staff.

Yn ei hanfod, pwrpas Ein Bro yw dathlu llwyddiannau ein disgyblion; rhoi cydnabyddiaeth a bri i'r disgyblion hynny sy'n cymryd y cam ychwanegol hwnnw ac yn serennu gan obeithio annog eraill i ddilyn yr un llwybr. Mae'n llinyn cyswllt effeithiol tu hwnt rhwng yr ysgol, y rhieni a'r gymuned ac yn arddangos doniau ein pobl ifanc.

Gan gofio mai ysgol cymharol fechan sydd gennym ni yma ym Machynlleth gydag ychydig dros 500 o ddisgyblion, testun balchder aruthrol i ni yw gweld dros 100 o dudalennau'r papur newydd yn cael eu llenwi'n dymhorol yn nodi llwyddianau'n hysgol ni mewn amrywiol feysydd.

Mae'n diolch ni'n fawr i bawb sydd wedi cyfrannu ac sy'n parhau i gyfrannu ac yn benodol i un person sy'n sicrhau llwyddiant ysgubol y papur newydd bob tymor a Mr Tomi Rowlands yw hwnnw.

Cyhoeddir Ein Bro ar ddiwedd bob tymor ac fe'i dosbarthir i bob disgybl. Os am fwrw golwg dros un o'r rhifynau sydd eisoes wedi eu cyhoeddi gellir gwneud hynny ar wefan yr ysgol www.brohyddgen.co.uk.

*Huge congratulations to the school for winning the Daily Post award for the best school newspaper. Previous issues of the paper is available to download from the website: www.brohyddgen.powys.sch.uk*












# 4 Presenoldeb / Attendance

Mae Llywodraeth Cymru wedi gorchymyn i bob awdurdod lleol weithredu Hysbysiadau Cosb o dan y Rheoliadau Addysg (Hysbysiad Cosb) (Cymru) 2013. Yng Ngheredigion, bydd hyn yn digwydd o fis Ionawr 2014.
Mae'r Awdurdod yn credu bod unrhyw absenoldeb o'r ysgol, am ba bynnag reswm, yn niweidiol i gyfleoedd bywyd hirdymor y plentyn, felly dylid osgoi hyn os yw yn bosibl o gwbl.
Mae Hysbysiad Cosb yn ddewis yn hytrach nag erlyn gyda'r nod o geisio sicrhau gwelliant ym mhresenoldeb y plentyn yn yr ysgol.

**Apelio yn erbyn Hysbysiad Cosb**
Nid oes hawl statudol i apelio o dan y Rheoliadau, ond lle mae rhiant yn herio rhoi Hysbysiad Cosb gallai gysylltu â'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg.

**Pwy fydd yn derbyn Hysbysiad Cosb?**
Bydd hysbysiad yn cael ei anfon at bob rhiant mewn perthynas â phob plentyn.
O dan adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 mae "rhiant" yn golygu'r person â chyfrifoldeb rhiant a/neu'r rhai sy'n gyfrifol am ofalu am y plentyn o ddydd i ddydd beth bynnag yw eu perthynas gyda'r plentyn.

**PAM Y DYLAI FY MHLENTYN FYND I'R YSGOL BOB DYDD**

| | | |
|---|---|---|
| 100% o bresenoldeb | 0 o ddyddiau o ddysgu wedi'u colli | Y cyfle gorau o lwyddo! |
| 95% o bresenoldeb | 2 wythnos o ddysgu wedi'u colli | Bydd presenoldeb gwael yn effeithio ar y dysgu. |
| 90% o bresenoldeb | 4 wythnos o ddysgu wedi'u colli | |
| 85% o bresenoldeb | 5 ½ wythnos o ddysgu wedi'u colli | Mae presenoldeb gwael iawn yn cael effaith sylweddol ar y dysgu. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn. |
| 80% o bresenoldeb | O leiaf 7½ wythnos o ddysgu wedi'u colli | |

**Gallai hysbysiad cosb gael ei roi**
Pan fydd disgybl wedi colli o leiaf 10 sesiwn neu bum diwrnod ysgol oherwydd absenoldeb heb awdurdod yn ystod y tymor cyfredol, ac sy'n dod â phresenoldeb cyffredinol y disgybl i o dan 90% yn y flwyddyn ysgol hyd yn hyn.
Pan gollir 10 sesiwn neu 5 diwrnod ysgol oherwydd gwyliau yn ystod y tymor ac os yw'r absenoldeb yn mynd â phresenoldeb y disgybl o dan 90% yn y flwyddyn ysgol gyfredol hyd yn hyn.
Pan fydd 10 sesiwn o fod yn hwyr yn gyson ar ôl i'r gofrestr gau mewn tymor gan ddod â'r presenoldeb o dan 90% yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol hyd yn hyn neu gyfuniad o'r uchod.

**Cost Hysbysiad Cosb**
Os bydd angen hysbysiad, bydd y rhiant yn cael rhybudd o 15 diwrnod i roi unrhyw dystiolaeth y dymuna ei chyflwyno i'r ysgol i ddadlau pam na ddylai'r hysbysiad gael ei roi. Mater i'r ysgol fydd penderfynu a ddylai'r dystiolaeth gael ei derbyn. Ni fydd y cyfnod rhybudd o 15 diwrnod yn berthnasol i absenoldeb heb awdurdod sy'n gysylltiedig â gwyliau.
Nid oes cyfyngiadau ar nifer y rhybuddion ffurfiol y gellir eu rhoi.

**Bydd y ddirwy yn:**
- £60 os caiff ei thalu o fewn 28 diwrnod, a allai godi i -
- £120 os caiff ei thalu ar ôl 28 diwrnod, ond o fewn 42 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad cychwynnol.

Os na fydd yr Hysbysiad Cosb yn cael ei dalu, yna bydd yr Awdurdod Lleol (ALl) yn ystyried erlyn am y drosedd wreiddiol, sef 'methu â sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol' o dan adran 444(A) Deddf Addysg 1996

**Cymorth gyda Phresenoldeb yn yr Ysgol**
Cofiwch, os oes rhesymau pam fod eich plentyn yn colli ysgol, rhowch wybod i'r ysgol.

Os nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna siaradwch â'r ysgol cyn gynted â phosibl ar ddiwrnod cyntaf ei absenoldeb. Disgwylir i'ch plentyn fod yn yr ysgol am 190 diwrnod yn ystod blwyddyn academaidd gyda 175 o ddyddiau i ffwrdd oherwydd penwythnosau a gwyliau ysgol.

**PWY ALLWCH CHI EU FFONIO**
Gellir cael rhagor o wybodaeth am ysgol yn rhoi Hysbysiadau Cosb gan ysgol eich plentyn neu gan Wasanaeth Cynhwysiant Addysg yr Awdurdod Lleol

# Presenoldeb / Attendance

Welsh Government have instructed all local authorities to implement Penalty Charge Notices under the Welsh Government Education (Penalty Notice) (Wales) Regulations 2013
The ERW consortium believe that any absence from school, for whatever reason, is detrimental to a child's long term life opportunities, so should be avoided if at all possible.
A Penalty Charge Notice is issued as am alternative to prosecution . The aim of which is to promote the improvement in attendance at school of the child.

**Appealing against a Penalty Charge Notice.**

There is no statutory right of appeal against a Penalty Charge Notice under the Regulations, though where a parent contests the issuing of a Penalty Charge Notice they can contact the Education Welfare Service.

**Who will receive a Penalty Notice?**

A Penalty Charge Notice will be issued to each parent, in respect of each child who is absent from school without good reason. Section 576 of the Education Act 1996 defines a 'parent' to include persons who are not parents but who have parental responsibility or care of the child

**WHY SHOULD MY CHILD ATTEND SCHOOL EVERY DAY**

| | | |
|---|---|---|
| 100% attendance | 0 days learning missed | Best chance of success! |
| 95% attendance | 2 weeks of learning missed | Poor attendance will impact on learning. |
| 90% attendance | 4 weeks of learning missed | |
| 85% attendance | 5 ½ weeks of learning missed | Very poor attendance has a significant impact on learning. You are at risk of prosecution. |
| 80% attendance | At least 7 ½ weeks of learning missed. | |

**A Penalty Charge Notice may be issued:**
When a pupil has a minimum of 10 sessions or five school days lost due to unauthorised absences during the current term that brings the pupils` overall attendance at school below 90% in the school year to date.

10 sessions, or 5 school days, are lost due to holidays in term-time if the absence takes the pupils school attendance to below 90% in the current school year to date.

10 sessions of persistent lateness after the register has closed in a term bringing the pupils school attendance to below 90% in the current school year to date.

**The cost of a Penalty Charge Notice.**

If a notice is required the parent will have a warning of 15 days to provide any evidence they may wish to present to the school to argue why the notice should not be issued. It will be for the school to determine if the evidence is accepted.
There are no limit to the number of formal warnings that can be issued.

If the school attendance of the child does not improve then the penalty will be:

The Penalty Charge Notice is for the amount of £120 though this will be subject to a discounted amount £60 should this amount be paid within 42 days.

If the Penalty Charge Notice is not paid at all then the Local Authority (LA) will consider prosecution for the original offence, which is 'failure to ensure regular attendance at school' under sections 444 (1) or 444(1A) of the Education Act 1996.

**Support with School Attendance.**
Please remember that if there are reasons why your child is missing school then keep the school informed.

If your child is off school then speak to the school as early as possible on the first day of their absence.

Your child is expected to be in school for 190 days an academic year with 175 days off due to weekends and school holidays.

**WHO CAN YOU CALL**
Further information on the issuing of Penalty Notices can be obtained from your child's school or from the Education Welfare Service department of the Local Authority

# Bore Coffi Macmillan
# Macmillan Coffee Morning











Cafwyd bore coffi i hel arian at elusen Macmillan fel rhan o'r ymgyrch 'biggest coffee morning' yn yr ysgol ddydd Gwener 25 Medi. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu tuag at yr achos. Diolch i'r disgyblion hŷn a'r chweched am helpu ac i Miss Haslam am drefnu. Codwyd £135.

*A coffee morning was held with the aim of raising money for Macmillan as part of the, "largest coffee morning" on Friday September 25th. A big thank you to all who contributed towards the event. Thank you also to the sixth form and Miss Haslam for organising it . We raised £135!*

# Dyddiadau Pwysig / Important Dates

### Campws Cynradd / Primary Campus

- 04.01.2016—Ysgol yn aril agor ar ôl y Nadolig/ School re-opens after Christmas break.
- Eisteddfod Ddawns Cylch Bro Ddyfi – Nos Fercher 10/2/2016
- Eisteddfod Cylch Bro Ddyfi – Dydd Sadwrn, 27/2/2016
- Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Cynradd – Dydd Sadwrn 12/3/2016
- 03.5.2016—10.5.2016—Profion Cenedlaethol Rhif a Darllen / National Reading and Numeracy tests.

### Campws Uwchradd / Senior Campus

- 04.01.2016—Ysgol yn aril agor ar ôl y Nadolig/School re-opens after Christmas break.
- 6.1.16—15.1.16—Arholiadau allanol TGAU / TCSE External Examinations.
- 15.2.16—19.2.16—Hanner tymor/Half Term.
- 27.4.2016—10.5.2016—Profion Cenedlaethol Rhif a Darllen / National Reading and Numeracy tests.
- 13.5.2016—28.6.2016 -Arholiadau allanol TGAU a Level A / GCSE and A Level external examinations.

# GWEITHDY STIWDIO / STUDIO WORKSHOP

Ymwelodd Elin Morse o Adran Ffilm, Theatr a Theledu Coleg Prifysgol Cymru, Aberyswtyth â'r ysgol i gynnal gweithdy ar ffilmio mewn stiwdio. Cafodd disgyblion y 6ed yn y pynciau Cyfryngau, Drama a Cymraeg fore buddiol dros ben ynghyd â llawer o hwyl.

*Elin Morse from the Department of Theatre. Film and Television of the University of Wales, Aberystwyth, gave a workshop on studio filming for students of Drama. Media and Welsh. The sixth formers workshop was a good combination of fun and learning.*



# Cyngerdd Sinffonia Cymru







### Cyngerdd Sinffonia Cymru

Cafwyd noson i'w chofio yn Ysgol Bro Hyddgen nos Fawrth diwethaf; cafodd cantorion ac offerynwyr ifanc yr ysgol y cyfle i berfformio yng nghwmni cerddorfa broffesiynol Sinffonia Cymru dan arweiniad Mr Mark Eager. Pinacl y noson oedd perfformiad gwefreiddiol o "Dros Gymru'n Gwlad" gan gôr yr ysgol ar y cyd â'r gerddorfa a'r pedwarawd ifanc Malen Meredydd, Aron Wyn Parry, Naomi Jones a Jack Williamson. Cafwyd eitemau cerddorol yn ogystal gan Rhian Griffiths, Beca Wyn Jones ac Aron Parry. Cafwyd cyfle unigryw gennom ni bobl ifanc i fod yn rhan o brofiad cerddorol bythgofiadwy hefo cerddorion ar frig eu proffesiwn; braf felly fyddai estyn diolch mawr i bawb a alluogodd i brosiect Crescendo ddigwydd, yn enwedig Mrs Llio James, Mrs Sally Marshall, Mr Philip Price, Mrs Jane Legget, Mr Steffan Jones, ac arweinydd y Sinffonia Gymreig, Mr Mark Eager.

**Gan: Rhun Bleddyn**

### Welsh Symphony Performance

We had a evening to remember in Ysgol Bro Hyddgen on Tuesday night; young singers and instrumentalist of the school had the opportunity to perform along and under the leadership of Mr Mark Eager. The highlight of the night was the performance of "Dros Gymru'n Gwald" by the school choir and the orchestra; Malen Meredydd, Aron Wyn Parry, Naomi Jones and Jack Williamson. We also had musical items from: Rhian Griffiths, Beca Wyn Jones and Aron Parry. We had a unique experience which we will always remember with performers who are considered the best in their profession . It is with great pleasure that we thank the Crescendo project but in particular Mrs Llio James, Mrs Sally Marshall, Mr Philip Price, Mrs Jane Legget, Mr Steffan Jones, and Mr Mark Eager who lead the orchestra.

**By Rhun Bleddyn**

# Cyngerdd Sinffonia Cymru













# Ymweliad Cwpan y Byd









*Annwyl Bawb*

*Nodyn byr i ddiolch o galon am eich cydweithrediad er mwyn ein galluogi i rannu y digwyddiad gyda'r ysgolion a'r plant. A allwch ddweud diolch wrth y staff i gyd plis am eu hyblygrwydd.*

*Roedd y 3 aelod o staff 'Girlguiding' wrth eu boddau gyda'r dre ac yr ysgolion ac roedd teimlad cartrefol a chymunedol dros ben i'r holl ddigwyddiad. Yr adborth a gefais - "plant dymunol a chwrtais dros ben ac athrawon croesawgar a chyfeillgar."*

*A allwch hefyd nodi bod bechgyn y 6ed wedi bod yn arbennig o dda - doedd dim yn ormod o draffeth iddynt, mi fues yn gwylio rhan o sesiwn gyda blwyddyn 7  - maent yn gredit i'r ysgol ac wedi creu argraff arbennig gyda staff Girlguiding - nid oeddynt wedi gweld lefel o gydweithio mor dda mewn 'run ysgol arall ar eu taith. Plis diolchwch iddynt.*

*Diolch eto am y croeso,*

*Anwen a'r tim "Girlguiding" Cymru*

*Dear All,*

*A brief note to thank everyone for the co-operation yesterday that allowed us to share the event with the school and the children. Can you please thank all the staff ..*

*The three members of 'Girl-Guiding' were delighted with the town and the schools and they felt that the atmosphere was thoroughly homely and sociable. The feedback I received –"extremely pleasant and polite children and friendly and welcoming staff."*

*Please note too that the 6th form boys have been particularly good –going out of their way to please, I watched part of a session with year 7 – they are a credit to the school and have made a great impression on the Girl-Guiding staff. They had not seen as good a level of co-operation in any other school on their tour. Please thank them.*

*Thanks again for the welcome.*

*Anwen and the Machynlleth and Wales Girlguiding team.*

# Tîm F1 Ysgol Bro Hyddgen



## Newyddion gan Dîm F1 Ysgol Bro Hyddgen Eleni

## Gan: Alexander Monnox



This year Ysgol Bro Hyddgen is taking part in the F1 Rookie Class. Usually Ysgol Bro Hyddgen goes into the Bloodhound SS class so the F1 Rookie Class is a new challenge for the school. This year's team consists of Jack Evans, Ezra Taylor, Dyfrig Harding, Mathew Ames, Moses Hodgetts and Alexander Monnnox. We have had to take pictures , create videos and create a presentation of our team. We will be presenting this in April in Bangor in front of the Judges. On the same day , we will be racing our car against other schools in Wales.

Eleni, mae Ysgol Bro Hyddgen yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth yr F1: Dosbarth Rookie. Fel arfer mae'r ysgol yn cystadlu'n y dosbarth Bloodhound SS felly mae'r F1 Class Rookie yn her newydd i'r ysgol. Mae'r tîm eleni yn cynnwys Jack Evans, Ezra Taylor, Dyfrig Harding, Mathew Ames, Moses Hodgetts ac Alexander Monnnox. Rydym wedi gorfod tynnu lluniau, creu fideos a chreu cyflwyniad o'n tîm. Byddwn yn cyflwyno hyn ym mis Ebrill ym Mangor o flaen y Barnwyr. Ar yr un diwrnod, byddem yn rasio ein car yn erbyn ysgolion eraill yng Nghymru.

# Rhedeg i Baris. . . Taith Urdd i Disneyland Paris

Fis Hydref eleni aeth criw o flwyddyn 8 a 9 draw i Baris gyda'r Urdd gan fwynhau eu hunain yn fawr. Roedd y bws yn gadael yr ysgol am 10 y nos ac felly roedd gofyn teithio i Dde Lloegr dros nos cyn croesi i Ffrainc erbyn y bore. Trefnwyd amryw o weithgareddau diddorol gan ymweld â nifer o atyniadau pwysicaf Paris ac wrth cwrs, y prif atyniad, Parc Disney! Dyma daith hynod lwyddiannus a diolch yn fawr i'r Urdd am ei drefnu.

*During October this year, a group of pupils from years 8 & 9 travelled to Paris and had a fantastic time. The bus left the school at 10pm which meant an overnight trip to the south of England before crossing to France by morning. Various activities were arranged and the pupils had the chance to visit many important attractions including Disney Land! It was an another fantastic trip – thank you to the Urdd for arranging it.*



# Badminton Competition




*Ysgol Bro Hyddgen recently took part in a 5x60 inter schools badminton competition in Newtown, 4 teams took part :*

- *7&8 Boys: Jack, Ilan, Ieuan, Tom.*
- *7&8 Girls: Morgan, Ellie, Leela, Freya*
- *9&10 Boys: Deacon, Sion, Harri Ben*
- *9&10 Girls: Abbey, Lois, Rose, Emma*

*They all played really well against teams from Newtown, Llanfair Caereinion, Welshpool, Llanfyllyn and Llanidloes. The competition started with 2 singles matches and then up to 3 doubles matches.*

*After a hard day battling it out the results were.*
*7&8 Boys 6th, 7&7 Girls 3rd, 9&10 Girls 3rd, 9&10 Boys 1st*

*The year 9&10 boys have qualified for the next round which will be a national competition in Dee side in the new year.*

# Yr Adran Wyddoniaeth

*In October the school's chemistry team took part in a chemistry competition in Gregynog. The team included 4 members from different years, 2 year 9's, 1 year 10 and 1 year 11. There were a number of rounds which tested our general knowledge of chemistry; we were competing against many different teams from other schools. In the first round, we succeeded in scoring more points than the other team meaning we were through to the semi- final.*

*During the semi- final , the questions became a lot more difficult and harder to answer. Unfortunately, we were beaten by the other school so this dashed our hopes of going to the final. Even though we didn't get to the final, we had to watch the final so we had a chance to answer those questions among ourselves. We were still very pleased to have made it to the semi- finals.*

*Harriet Bletcher*

*Yn ystod mis Hydref bu tim o ddau aelod o flwyddyn 9, un o flwyddyn 10 ac un o flwyddyn 11 yn cystadlu mewn cystadleuaeth Cemeg yng Ngregynog. Profwyd ein gwybodaeth cemegol mewn nifer o rowndiau gwahanol o gwestiynau. Roeddwn yn cystadlu yn erbyn nifer o dimau eraill o ysgolion y canolbarth. Enillom y rownd cyntaf, gan lwyddo i fynd ymlaen i'r rownd gyn derfynol.*

*Roedd y cwestiynau llawer anoddach yn y rownd gyn derfynol a cawsom ein curo gan y tîm arall. Dyna ddiwedd ar ein gobeithion o gyrraedd y rownd derfynol yn anffodus. Cawsom gyfle i wylio'r rownd derfynol a cheisio ateb y cwestiynau i'n hunain. Roeddwn yn falch iawn o fod wedi cyrraedd y rownd gynderfynol.*

# Adran Dechnoleg / Technology Department

## Adeiladu celfi ar gyfer sioe Nadolig y campws cynradd

## Creating the props for the primary campus Christmas show



Dros yr awr ginio am gyfnod o wythnos mae Dafydd Ingram a Rhys Jones o flwyddyn 10 ac Aled Sarson o flwyddyn 8 wedi bod yn gweithio'n galed yn creu celfi ar gyfer sioe Nadolig y campws cynradd. Mae'r tri wedi cynhyrchu sled sydd yn torri'n ei hanner a lle tân ar gyfer y sioe. Diolch i chi am eich gwaith!

Over their lunch hour for a period of a week Dafydd Ingram and Rhys Jones of year 10 and Aled Sarson of year 8 have been working very hard in creating props for the primary campus Christmas show. The three of them have created a sledge that breaks in half and a fireplace for the show.

# DYFI Sasquatch news

**Pump track news,**

The plans for our new pump track have gained some momentum. There will be a new pump track in the skate park in Machynlleth which has been funded by the the community council and Dyfi mountain Bike events, hopefully that will give us a good insight to be able to develop our plans.

***Bro Hyddgen Biking  Club***

*There are plans to run a series of mountain bike coaching sessions and lead rides over Christmas and the coming months, so anybody interested in taking part in any biking activities please see Mrs Nikki Taylor in school or contact nlr@brohyddgen.powys.sch.uk*

Dyfi Sasquatch

# Gorsaf Dywydd / Weather Station







Mae'r ysgol wedi bod yn ffodus iawn i gael gorsaf dywydd yn y campws uwchradd. Mae'r orsaf yma yn y campws uwchradd gyda'r nod o gael ei ddefnyddio ar draws gwahanol bynciau yn y campws uwchradd ac yn y campws cynradd.

Mae'n hynod o ddiddorol gweld y data sydd yn cael ei gasglu a'r gwahanol ffyrdd y gallwn ei ddenfyddio yn ein gwersi. Mae BL9 yn gwneud prosiect yn y gwersi TGCh gyda'r data o'r orsaf dywydd, ac hefyd mae'r adran Ddaearyddiaeth yn defnyddio'r data gyda disgyblion BL9 yn eu prosiect ar ficro hinsawdd yn ein hardal.

Yn y campws, cynradd mae Blwyddyn 3 a 4 Dosbarth Mrs Gwenan Phillips yn gwneud rhaglen newyddion gyda darn tywydd ar y diwedd sydd eto yn helpu'r plant ddeallt data, a gallu ei ddefnyddio er mwyn deallt y tywydd. Hefyd cafodd BL6 y cyfle i greu rhaglen newyddion eu hunain ar ddiwrnod trosglwyddo yn y Haf 2015.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Chris Higgins a'r Cynllun COBWEB am gyflwyno'r orsaf dywydd i'r ysgol ac rydym yn edrych ymlaen i'w ddefnyddio ar draws y pynciau.

I weld y data o'r orsaf dywydd ewch i'r linc: http://www.wunderground.com/personal-weather-station/dashboard?ID=IMACHYNL2#history

*The school has been very fortunate to have a weather station installed on the secondary campus. The aim of the weather station is to collect data and this can then be used across the curriculum in both the primary campus and the secondary campus.*

*It has been very interesting to see the data being collected using the new system and how we have used it in different projects across the school. In year 9 the ICT pupils will be looking at the data to see patterns on wind speeds and the amount of rainfall that has been recorded over the winter and the summer while the geography department is using this data as part of their project with year 9 on if the area has a microclimate.*

*Mrs Gwenan Phillips' Year 3 and 4 class will be using the weather station as part of their news report while year 6 in the summer 2015 as part of the transition week did a weather forecast using their day with us.*

*We would like to thank Chris Higgins and the COBWEB project for donating the weather station to the school and we are looking forward in using the station as part of the curriculum in the school. To see the data from our weather station you can go on the link:* www.wunderground.com/personal-weather-station/dashboard?ID=IMACHYNL2#history

# Playful Coding (www.playfulcoding.eu)










"Salut."! (Hello in Romanian).

On Saturday the 7th of November, Miss Good and Mr Rowlands boarded a plane to Bucharest in Romania. The aim of the visit was to take part in the 'Playful Coding' conference in Craiova. During their visit, they were fortunate enough to visit a primary and secondary school to learn about Romanian education.

As a result of this conference, Miss Good will be using robotics to track the growth of potato plants over time with her year 12 class. Mr Rowlands will use this knowledge to embed coding into the ICT curriculum. This will enable Mr Rowlands to share good practise with other schools in the area.

"Mulţumesc" (Thank you!)

Am fwy o wybodaeth am y cynllun ewch i: www.playfulcoding.eu

*"Salut."! (Helo yn Rwmaniaidd).*

*Ddydd Sadwrn y 7fed o Dachwedd, aeth Miss Good a Mr Rowlands ar awyren i Fucharest yn Rwmania. Nod yr ymweliad oedd i gymryd rhan yn y gynhadledd 'Playful Coding' yng Nghraiova. Yn ystod yr ymweliad, roeddynt yn ddigon ffodus i gael ymweld ag ysgol i ddysgu am addysg Rwmaniaidd.*

*O ganlyniad i'r gynhadledd, mi fydd Miss Good yn defnyddio roboteg ar gyfer monitro twf planhigion tatws dros amser gyda'i dosbarth blwyddyn 12. Defnyddiodd Mr Rowlands y wybodaeth yma i fewnosod codio i'r cwricwlwm TGCh. Mi fydd hyn yn galluogi Mr Rowlands rannu'r arfer dda yma gydag ysgolion eriall.*

*"Mulţumesc" (Diolch!)*

*For more information on the project go to: www.playfulcoding.eu*

# FFOTOMACHATHON 2015

Dyma ychydig o'r delweddau a dynnwyd gan flwyddyn 7 yn ystod y bore Ffotomarathon. Wedi iddynt gael cyfwlyniad byr i bwysigrwydd cyfansoddiad mewn ffotograffiaeth, dyma fynd ati i dynnu lluniau ar 6 thema. Mae'n amlwg fod yma wir botensial ffotograffig. Ennillwyd y wobr gyntaf (am gasgliad cyfan) gan Freya Canham. Gellir gweld y delweddau yma mewn lliw ar wefan yr Ysgol.

*Here are just a few of the beautiful images captured by Year 7 in their ffoto marathon morning. After a brief introduction to the importance of composition in photography, they went about searching for images under 6 themes. It's clear that there is huge photographic potential here. The first prize (for the collection of 6) was won by Freya Canham. These images can be seen in colour on the School website.*



Cyfochrog / Parallel – Eiry Lewis



Mewnol / Interior – Mari Elin



Ennyd / A second – Ieuan Jones



Ffin / Border – Mari Elin

# FFOTOMACHATHON 2015



Llygad / Eye – Laura Capon



Ennyd / A second - Nina Bussink



Glas / Blue – Lily Shone



Glas / Blue – Morgan Campbell

# FFOTOMACHATHON 2015



Ffin / Border – Freya Canham



Ennyd / A second – Freya Canham

# Cystadleuaeth pêl droed a phêl rwyd yr Urdd

Ddydd Iau, 19 Tachwedd cynhaliwyd cystadlaethau pêl droed a phêl rwyd yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Bro Ddyfi. Bu cystadlu brwd rhwng ysgolion y Dalgylch a chafwyd gemau cyffrous ac agos! Bu tri thîm pêl rwyd o'r ysgol yn cystadlu, ynghyd â dau dîm o fechgyn ac un tîm o ferched yn cystadlu yn y gystadleuaeth pêl droed 7 bob ochr. Llongyfarchiadau calonnog i dîm pêl rwyd Bro Hyddgen B, tîm pêl droed y merched a thîm pêl droed bechgyn Bro Hyddgen 1 fydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd nesaf ym mis Ionawr. Pob dymuniad da i'r holl dîmau.

*On Thursday 19 November the primary campus competed in a football and netball competition in the Bro Ddyfi leisure centre. We had a heated competition between all the schools in the area! Three netball teams from the school took part and 2 football teams with the boys and one football team with the girls playing 5 a side. A big congratulations to the Bro Hyddgen netball Team B, girls football team and boys football team 1 who will go to the next round of the competition in January.*





# Diwrnod 5x60

Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn mwynhau diwrnod yn llawn o weithgareddau chwaraeon amrywiol yn Ysgol Llanbrynmair ddydd Mawrth, 15 Medi. Cafwyd blas ar lu o weithgareddau gan gynnwys rygbi tag, pêl droed, criced cyflym, tenis a llawer mwy. Roedd yn gyfle gwych i gydweithio a datblygu sgiliau newydd. Diolch i Siân, y Swyddog 5x60 am drefnu'r diwrnod, ac i ddisgyblion hŷn y campws uwchradd am helpu trwy arwain y gweithgareddau.

*Year 5 and 6 pupils enjoyed a day full of different sporting activities at Llanbrynmair School on Tuesday September 15. The pupils had the opportunity to try many different sports including tag rugby, football, quick cricket, tennis and many more. It was an ideal opportunity to develop new skills. Thanks to Sian, the 5x60 officer for arranging the day, and to the older pupils at the Secondary campus for helping out with leading the activities.*





Y plant yn mwynhau perfformio'r 'haka'!
The pupils enjoying performing the 'haka'!



# Clwb Robotics Prifysgol Aberystwyth

Eleni mae rhai o ddisgyblion Blwyddyn 11 TGCh wedi bod yn ffodus i fynychu clwb creu robot ym mhrifysgol Aberystwyth. Yn y flwyddyn newydd bydd BL11 yn helpu Bl6 ar ddiwrnod pontio i'w cael nhw i greu robot tebyg hefyd. Hoffwn ddiolch i Dr Hannah Dee a Phrifysgol Aberystwyth am y cyfle a'r hyfforddiant.

*This term some of the Year 11 ICT class have been very fortunate to join the Aberystwyth robotics club. In the New Year, Year 11 will be showing year 6 during their transition day how to make a similar robot with their new skills. We would like to thank Dr Hannah Dee and Aberystwyth University for their time and support in the project.*



# Beth yw COBWEB ?




Mae COBWEB, y Citizen OBservatory WEB, yn gynllun sy'n defnyddio 'gwyddoniaeth gwerin' (*citizen science*) sef galluogi dinasyddion i gasglu gwybodaeth amgylcheddol drwy ddefnyddio teclynnau symudol. Bydd y wybodaeth a gesglir yn addas i'w ddefnyddio mewn ymchwil gwyddonol, gwneud penderfyniadau a llunio polisi.
Mae COBWEB yn ddibynnol ar yr hyn a elwir yn 'dorfdarddu' (crowdsourcing) sef casglu data gan dorf amhenodol o bobl.

**Beth yw gwyddoniaeth gwerin?**
Gellir diffinio 'gwyddoniaeth gwerin' yn eang fel cyfraniadau gwirfoddolwyr i wyddoniaeth. Mae'r dull yma o gynnal ymchwil gwyddonol yn dod yn fwy-fwy poblogaidd, gan y gellir casglu toreth o wybodaeth yn gyfleus. Yn ogystal, mae datblygiadau mewn technolegau symudol wedi gwneud gwyddoniaeth gwerin yn ymarferol fel modd o ymchwilio.

**Pam cymryd rhan?**
Mae COBWEB angen 'gwyddonwyr gwerin' sy'n awyddus i gymryd rhan yn y gweithgareddau ymchwil yma yn ardal Biosffer Dyfi. Nid yn unig y gallech gyfrannu gwybodaeth ond gallech hefyd weld eich cyfraniadau chi ochr yn ochr â data'r 'dorf'.

**Beth yw Biosffer Dyfi?**
Mae ardaloedd Biosffer yn safleoedd sydd wedi eu dynodi dan raglen Bobl a'r Biosffer UNESCO i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ar sail ymdrechion cymunedol a gwyddoniaeth safonol.
Biosffer Dyfi yw'r cyntaf yng Nghymru, un o 631 ardal debyg mewn 119 gwlad ar draws y byd.
Mae'r ardaloedd o gwmpas yr afon Ddyfi yn gartref i rai o dirluniau nodedig a bywyd gwyllt gorau Ewrop. Er hynny nid yw'r rhan fwyaf o Fiosffer Dyfi'n ardal o gadwraeth ond yn hytrach yn fan lle mae pobl yn byw ac yn gweithio.



# What is COBWEB?




*The Citizen Observatory Web is a project concerned with enabling citizens to collect environmental data using mobile devices. These data will be suitable for use in research, decision making and policy formation. COBWEB relies on what is known as crowdsourcing; information (data) collected by an undefined 'crowd' of people.*

***What is citizen science?***

*Citizen science can broadly be defined as the involvement of volunteers in science. It is becoming an ever more popular method of performing scientific research because large amounts of data can be collected. Advances in mobile technologies make citizen science increasingly viable as a research tool.*

***Why take part?***

*COBWEB needs aspiring citizen scientists to participate in its research activities. Not only can you contribute data, you can also see your contributions online alongside the rest of the crowd's data.*

***The Dyfi Biosphere***

*Biosphere Reserves are sites registered under UNESCO's Man and the Biosphere programme to promote sustainable development based on local community efforts and sound science.*

*The Dyfi Biosphere is the first in Wales, one of 631 biosphere reserves in 119 countries all over the world. The areas around the river Dyfi host some of the finest examples of special landscapes and wildlife areas in Europe. However, most of the Dyfi Biosphere is not a conservation area, simply places where people live and work.*



# Sioe Nadolig "Iasoer"





Diolch yn fawr iawn i bawb fu'n cynorthwyo gyda'r cynhyrchiad hwn. Diolch i aelodau'r staff am eu gwaith diflino yn cynhyrchu'r sioe, yn cyfeilio, yn hyfforddi'r cantorion a'r dawnswyr ynghyd â pharatoi'r gwisgoedd a'r set. Diolch yn arbennig i Mr Tegid Owen am ei gymorth gyda'r propiau, ac i Sarah Morton a Lesley Davidson am roi benthyg propiau a deunyddiau ychwanegol. Carem ddiolch i'r Pwyllgor Rhieni ac Athrawon, i rieni a chyfeillion am eu cefnogaeth. Diolch hefyd i Sarah Mumford, Banc Barclays am drefnu nawdd punt am bunt i chwyddo elw'r ymhellach.

*Thank you to everyone for their support and assistance with this production. Thank you to the staff for directing the show, teaching the singers and dancers, and for preparing the costumes and the set. A special thank you to Mr Tegid Owen for his assistance with the props; to Sarah Morton and Lesley Davidson for the loan of additional props and materials. We would like to thank the PTA, parents and friends for their support. Thank you also to Sarah Mumford, Barclays Bank for arranging a match funding scheme which will further boost the proceeds of the concert.*





# Sioe Nadolig "Frozen"













# Penwythnos Trosglwyddo



## Newyddion o'r daith trosglwyddo Bl6 a 7 i Langrannog



Rhai wythnosau yn ôl, es i gyda fy ffrindiau i Wersyll yr Urdd Llangrannog am y penwythnos gyda blwyddyn 6, 7 ac 8. Ar y Dydd Gwener, roedd pawb yn gyffrous iawn ac yn parablu fel melynion bupur ynglŷn â'r 2 diwrnod nesaf! Ar ôl i'r ysgol orffen, aethom gyda'n bagiau trwm i'r bws (am ryw reswm, fi oedd yr un gyda'r mwyaf o bethau!), ac yna roedden ni wedi mynd!

Cyrhaeddon ni Llangrannog, lle cwrddon ni'r dyn oedd yn mynd i ofalu am y gwersyll am yr amser oedden ni yna. Ar ôl iddo fo siarad â ni, fe aethom i'n hystafelloedd, ac yna roedd hi'n amser swper. Y noson hynny fe wnaethon ni gemau potes, ond mewn chwinciad chwannen, roedd hi'n 10 o'r gloch! Cymrodd llawer o amser i bawb fynd i gysgu, ond yn y diwedd fe wnaeth pawb ei wneud.

Y diwrnod nesaf, cododd pawb am 5 o'r gloch yn y bore, am nad oedd watsh Gwern dyn dweud yr amser cywir! Cefais 'Coco Pops' i frecwast ac iogwrt, fel llawer o bobl eraill oedd yno. Aethom ni i'r weithgaredd nesaf ar ôl hynny, a hwnnw oedd y cwrs rhaffau uchel, lle'r oeddech chi'n gorfod dringo ar hyd rhaffau, neidio dros gapiau a chydbwyso ar logiau, rhyw 3 metr oddi ar y llawr.

Y diwrnod hynny, gwnaethom lawer o bethau gwahanol, gan gynnwys dringo (roedd Huw a Gustav yn dda am hynny), a gyrru beiciau cwad (roedd Max wedi mynd mor gyflym ag y gallwch i mewn i wal o deiars.Glaniodd ar ei ben ôl! Yn lwcus, doedd o ddim wedi brifo o gwbl!).

Ar ôl i'r haul fachlud chwaraeon ni bingo gyda Mr Llifon Ellis (yn anffodus doedden i ddim wedi ennill), ac wedyn roedd hi'n amser i fynd i'r gwely eto! Yn ffodus, roedd pawb wedi blino'r tro yma, felly doedd dim problem mynd i gysgu.

Dydd Sul oedd y diwrnod pan aethon ni adre, ond roedd dal amser i wneud 3 gweithgaredd arall, sef gwibgartio, sgïo a gyrru ceirt modur (roedd y rhain yn mynd yn gyflym iawn!). Ond, mae popeth yn gorfod dod i ben, felly aethom ni adre. Mwynheais fy amser yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog yn fawr, ac roedd o'n hwyl iawn i gwrdd â rhai o'm ffrindiau o'r ysgol gynradd eto. Rwy'n gobeithio bydd yr ysgol yn trefnu trip fel hwn eto rhywbryd yn y dyfodol.

Gan Osker Bond

This was a great trip because the staff were very kind and helpful. We had a great weekend and tried lots of new stuff such as Quad Biking, Skiing and Tobogganing. The rooms were very comfortable and clean. The meals were very TASTY! The Go-Carting was my favourite (Lexie). My favourite was Tobogganing and the Quad Biking (Molly). The disco was fun and we all were very tired afterwards.
We really enjoyed Llangrannog and we hope to go again.
By Lexie and Molly

# Transition Weekend



## News from the Year 6 and 7 transition weekend in Llangrannog



Yn ddiweddar, cefais i a fy ffrindiau o'r campws cynradd gyfle i dreulio penwythnos yn Ngwersyll Llangrannog gyda rhai o blant blwyddyn 7 ac 8 o'r campws uwchradd.
Cawsom ni gyd benwythnos gwych iawn yn mwynhau llu o weithgareddau. Un o'r uchafbwyntiau i mi oedd oedd mynd ar y ceirt modur oherwydd roeddem yn eu gyrru yn gyflym iawn ac roedd e gymaint o hwyl rasio yn erbyn fy ffrindiau.
Gweithgaredd boblogaidd arall oedd sgio gan fod nifer ohonom wedi edrych ymlaen yn fawr i gael mentro ar y llethr. Cawsom andros o sbort yn trotian ar y ceffylau hefyd! Cafwyd tipyn o hwyl yn y disgo yn ogystal ac roedd hi'n wych cael dawnsio, fodd bynnag roeddem wedi treulio llawer o amser yn paratoi ar gyfer y disgo, roedd ceisio cael trefn ar wallt Guto yn dipyn o her!
Roedd hi'n grêt dod i adnabod ambell un o'r athrawon o'r campws uwchradd yn ystod y penwythnos, ac roedd hi'n wych cael cymysgu gyda'r plant eraill hefyd. Does dim dwywaith amdani, roedd yn benwythnos i'w gofio!
Gan: Gwern Phillips

On Thursday 26th of November, 5/6J and 5/6H went down to the Plas to talk to Mr Julian Davies who works for Alan Griffiths (the company who's building the bridge) about the new bridge over the river Dyfi.
When we arrived at the Plas, we were given leaflets with information about the bridge. Mr Davies had a PowerPoint presentation prepared, so he started talking about where the bridge is going to be placed and all the features it is going to have. Then we had a look at the exhibition; on the exhibition was a picture of the bridge and information about it.
After that, we had some questions prepared beforehand so we sat in our groups and started asking questions such as: How wide will it be? What will the speed limit be? What are the figures for the people that are for and against the bridge? We found out that the speed limit is going to be 40mph on the straight and just before the corner it would be a 30mph. Surprisingly, everyone is for the new bridge but they have a few concerns. We also found out that there would only be 1 lane per direction of the traffic so it is going to be the normal width of a road.
I am for the new bridge because hopefully there won't be any floods and we won't have to do a 20mile detour every time it's closed. I am looking forward to doing a survey to see if people are for or against it and to know what their opinions are. I'm glad that we were able to go to the Plas because we have the answers to most of our questions about the new bridge.

Kaleb Wells 1/12/15

Ym mis Hydref aeth blynyddoedd 6,7 ac 8 Ysgol Bro Hyddgen i Wersyll yr Urdd Llangrannog am benwythnos. Yno cawsom gyfle i wneud nifer o weithgareddau anturus fel dringo wal, merlota, gwibgartio a nofio. Ond fy hoff weithgaredd i oedd y sgio,cefais lawer o hwyl wrth wibio i lawr y llethr (hyd yn oed yn gynt na Mr. Dafydd Jones!!) Gyda'r nos cawsom hwyl yn y gemau potes a'r disgo. Diolch yn fawr iawn i'r athrawon a'r chwewched ddosbarth am roi fynny efo ni am y penwythnos!

Gan Mari Elin Williams

# Penwythnos Trosglwyddo







Newyddion o'r daith trosglwyddo Bl6 a 7 i Langrannog







# Transition Weekend






News from the Year 6 and 7 transition weekend in Llangrannog







# Gŵyl Gyfeiriannu



Ar yr 20fed o Hydref, cynhaliwyd Gŵyl Cyfeiriannu i'r ysgolion cynradd yng Nghlwstwr Machynlleth. Yr ysgolion oedd wedi cymryd rhan oedd Ysgol Gynradd Carno, Ysgol Gynradd Llanbrynmair, Ysgol Gynradd Glantwymyn ac Ysgol Gynradd Bro Hyddgen.

Roedd yr helpwyr yn dod o Ysgol Uwchradd Bro Hyddgen; Benj Davies, Dillon Browne, Deacon Price, Macsen Tomos, Stefan Jones, Harry Cottam, Lois Jones, Robyn Williams a George Horne. Roedden nhw i gyd yn frwdfrydig iawn ac roedden nhw'n help mawr dyn ystod y diwrnod.

On the 20th October, the annual primary school orienteering festival ran for the Machynlleth Cluster on the High School Grounds of Bro Hyddgen. All Primary Schools took part, who include, Ysgol Gynradd Carno, Ysgol Gynradd Llanbrynmair, Ysgol Gynradd Glantwymyn and Ysgol Gynradd Bro Hyddgen.

The volunteers were students from Ysgol Uwchradd Bro Hyddgen; Benj Davies, Dillon Browne, Deacon Price, Macsen Tomos, Stefan Jones, Harry Cottam, Lois Jones, Robyn Williams and George Horne who were enthusiastic and a great help throughout the day.









# MWNCI AR DÂN



*Ymwelodd y criw Drama ag Aberystwyth i weld cynhyrchiad Arad Goch o Mwnci Ar Dân gan Sera Moore Williams. Dyma gyfle i weld cynhyrchiad proffesiynol o'r ddrama osod ar gyfer TGAU eleni, ac roedd yn gynhyrchiad arbennig o raenus. Dyma nhw ar y set gyda'r actorion a'r criw, y cawsant eu holi wedyn. Diolchwn yn fawr i Carol Izri ym Mhenweddig am drefnu'r ymweliad.*

*Drama pupils saw the Arad Goch production of Mwnci ar Dân by Sera Moore Williams in Aberystwyth. This was a great opportunity to see a professional production of the GCSE set text for Drama this year and was a great experience. Here they are on the set with the cast and crew who they questioned afterwards. Many thanks to Carol Izri in Penweddig for arranging the visit.*

## Clwb Gwaith Cartref / Homework Club

Mae'r clwb gwaith cartref yn lle gyda llawer o ysbridolaeth. Mae Sam yn rhoid Croeso mawr I ni ac yn helpu ni gyda ein gwaoth ac ein cynydd. Mae hi yn glen iawn ac yn derbyn pawb I'r clwb. Mae hi yn helpu fi yn personol os dwi yn ffindio'r gwaith yn anodd ac mae hi yn wneud ni chwerthin. Dewch I'r clwb phob diwrnod rhwng 3:25 I 4:30 pob diwrnod yr wythnos.

Gan Karly Evans

Homework club is an inspirational place to be! Sam is welcoming she is helpful and she is always encouraging us to do really well. She nice and polite she accepts everyone in the homework club. Sam helps us if we are struggling and she makes us laugh! Come to club every day after school from 3.25 to 4.30pm.Homework club is a joyful place to come.

Written by Karly Evans

# Taith Rhaglennu Adran TGCh




Diolch i Brifysgol Aberystwyth am ddiwrnod gwych!

Aethom ni i weld rhai o robotiaid drud iawn yn ystod taith i Brifysgol Aberystwyth. Rydym yn dysgu am bwysigrwydd robotiaid, rhaglennu a deallusrwydd artiffisial yn y gweithle. Yna cawsom ni ddarlith gan Dr Huw Morgan ar sut y mae'n defnyddio cod yn y gweithle ar gyfer ei waith ymchwil a pha mor bwysig yw cod nawr mae technoleg wedi addasu a gwella dros y blynyddoedd . Yna aethom i IBIS ac edrych ar sut y maent yn tyfu planhigion yn defnyddio amodau gwahanol gan ddefnyddio amrywiaeth o robotiaid i reoli'r tymheredd a lleoliad y planhigion. Roedd hyn yn ddiddorol iawn. Roeddwn yn gweld y daith yma yn help i fi baratoi at wneud cais i'r brifysgol y flwyddyn nesaf.

Gan: Jake Hinge

*We had the opportunity to visit Aberystwyth University to learn about the importance of robots, programming and artificial intelligence in the workplace. We also had a lecture from Dr. Huw Morgan on how he uses programming in the workplace for his research. We found this very interesting but also learning about how independent we must be when we go to university and able to actively carry on with our work with assistance but independence. We then went to IBIS and looked at how they grew plants using different conditions with their multi-million pound research greenhouse which is able to simulate and record any type of conditions for accurate research of plants and how they grow in different conditions in order to produce food in poor countries or produce more efficient plant to create energy.*

*Overall I found this trip beneficial to be able to prepare myself for further education and my application for university next year.*

*By: Jayden Mumford*





# Llenor Cadeiriol Bro Hyddgen



Testun balchder aruthrol i ni fel ysgol y tymor hwn yw datgan bod llenor cadeiriol yn ein plith. Ond, nid dim ond un gadair, ond dwy! Yn ystod y misoedd diwethaf cynhaliwyd dwy eisteddfod, un ym Marianglas, Ynys Môn, a'r llall yn Llandyrnog. Yn sefyll ar ei draed yn yr eisteddfodau hyn i'w gadeirio oedd Aron Wyn Parry o flwyddyn 13. Derbyniodd Aron farciau llawn am ei waith cwrs fel rhan o'r cwrs Uwch Gyfrannol yn Adran y Gymraeg y llynedd; yn wir, dim ond un marc a gollwyd yn ystod y flwyddyn gyfan —tipyn o gamp yn wir! Penderfynodd yrru ei waith i'r eisteddfodau hyn a chipio'r brif wobr yn y ddwy. Llongyfarchiadau gwresog i ti Aron.

*Aron Wyn Parry from year 13 was chaired the main litterateur at two Eisteddfods over the past few months. Aron managed to win the chair at both Marianglas, Anglesey and at Llandyrnog for his creative writing work. Aron gained full marks for his Course Work as part of the Welsh A Level course and astonishingly only lost one mark throughout year 12. As a school, we are very proud of his achievement and wish him well with his future endeavours.*

## Blwyddyn 12 a 13 yn dweud eu dweud.

Mae Blwyddyn 12 a 13 wedi bod yn brysur iawn yn y cyfryngau dros y misoedd diwethaf yn mynegi eu barn ac arddangos eu doniau. Ymddangosodd ambell i fyfyriwr ar raglan Newyddion 9 ar S4C i drafod eu safbwyntiau ar ostwng yr oed pleidleisio i 16 mlwydd oed. Daeth Anni Llŷn, Bardd Plant Cymru, at aelodau brwd y chweched dosbarth o'r adran Gymraeg yn ystod yr wythnosau diwethaf er mwyn llunio cân ar y cyd ag Ysgol Gyfun Ystalyfera. Bwriad y gweithdy oedd llunio geiriau ar gyfer cân i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymysg pobl ifanc – prosiect ar y cyd â Llên Cymru a Llywodraeth Cymru ydoedd. Cafwyd gweithdy cynhyrchiol tu hwnt. Efallai i chi weld eitem ar y prosiect ar raglen Ffeil ar S4C yn ddiweddar.

*Years 12 & 13 have been making their mark in the media over the past few months. You might have seen some of our students sharing their opinions on lowering the voting age on the Newyddion 9 programme on S4C recently. Wales' Children's Poet also visited the school to create lyrics for a song to attract more young people to speak Welsh. This was a project organised by Literature Wales and the Welsh Government. You might have seen some of them on the Ffeil programme on S4C.*



# Clwb Syrffio / Surfing Club





Unwith eto eleni rydym wedi mwynhau gwersi syrffio wedi'u darparu gan *Aber Adventures*. Mae Simon a'i gydweithwyr wedi bod yn rhoi gwersi syrffio i'r ysgol ers tair blynedd bellach ac mae sgiliau syrffio'r plant yn ystod yr amser yma wedi datblygu yn wych.

Mae'r gwersi yn cael eu cynnal yn Borth bob Nos Wener ar ôl Ysgol gyda 6 gwers mewn bloc o 6 wythnos. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig y gwersi yn ystod tymor yr Haf.

Diolch eto i Aber Adventures am eu holl gymorth dros y blynyddoedd diwethaf.

*Once again this year we have enjoyed surfing lessons provided by Aber Advnetures. Simon and his team have been providing lessons with the school for the past 3 years and our pupil's surfing skills have been imporving year on year.*

*The classes take place in Borth every Friday after school for a 6 week period between May and June but also a six week block between September and November.*

*Thank you to Aber Adventures for all their help and support over the years.*

## Clwb TGCh

Dros y tymor diwethaf mae yna nifer o bant wedi bod yn helpu i drwshio cyfarpar TGCh. Dyma'r clwb yn trwshio 2 gyfrifiadur o'r campws cynradd! Diolch yn fawr am eich amser!

*Over the past halfterm the ICT club has been helping fixing ICT items in the school. Here is the ICT club fixing 2 broken primary campus computers! Thanks for your time!*



# Cyngor Ysgol / School Council







## Campws Cynradd

Capteiniaid/Captains

Llongyfarchiadau i'r Capteiniaid uchod a etholwyd ar gyfer 2015 – 2016.

O'r chwith – Jake Thomas Owen ac Aaron Jones, Dulas, Molly Lewis ac Ella Morris, Crewi, Gwern Phillips a Guto Childs, Llyfnant a Freya Thapa a Kaleb Wells, Dyfi.

Congratulation to the Captains elected for 2015 – 2016.

From left - Jake Thomas Owen and Aaron Jones, Dulas, Molly Lewis and Ella Morris, Crewi, Gwern Phillips and Guto Childs, Llyfnant and Freya Thapa and Kaleb Wells, Dyfi.

## Campws Uwchradd

Hyd yn hyn mae'r cyngor ysgol wedi cael 2 gyfarfod ac wedi trafod amrywiaeth o bethau. Rydym yn awyddus i drafod unrhyw syniadau sydd gan ddisgyblion yr ysgol. Prif nod y cyngor ysgol eleni yw adnewyddu'r neuadd i wella ei edrychiad gan mai dyma un o'r llefydd cyntaf mae ymwelwyr yn ei weld a ble mae'r ysgol yn dod at ei gilydd fwyaf aml. Hefyd rydym am gynyddu'r nifer o bethau i ddisgyblion wneud yn ystod amser cinio fel cael gweithdai, mwy o chwaraeon neu gemau bwrdd a chynyddu'r defnydd o radio'r ysgol.

*So far the school council has had 2 meetings and we have discussed a variety of things. We are keen to discuss any ideas that the students have as part of our school. The council's main aim this year is to re-decorate the hall to improve its look as this is one of the first places visitors see in the school and where the school comes together most often. We also want to increase the number of things for students to do lunch time such as workshops, more sports or board games and increase the use of the school radio studio.*

# Diwrnod T Llew Jones (Campws Cynradd)



Roedd Dydd Gwener, 9 Hydref yn ddiwrnod arbennig ar y Campws Cynradd, gan y bu plant yr Adran Iau yn dathlu canmlwyddiant geni T.Llew Jones. Buom yn paratoi yn ystod yr wythnos yn coginio ac yn addurno cacennau ar gyfer te parti arbennig a gynhaliwyd brynhawn Gwener. Roedd nifer o'r plant ac ambell aelod o staff wedi gwisgo fel cymeriadau o nofelau T.Llew Jones. Yn ystod y dydd, cafodd y plant flas ar amrywiaeth o weithgareddau llythrennedd a rhifedd yn seiliedig ar fywyd a gwaith y llenor enwog.



*Friday the 9th of October was a very special day at the Primary Campus, when the Junior Department pupils celebrated the centenary of T Llew Jones' birth. The pupils had been preparing throughout the week by baking and decorating cakes for the special tea party held on Friday afternoon. A number of the pupils and staff had dressed as characters from T Llew Jones' novels. During the day the children took part in a number of activities based on the life and work of the famous author.*





# Eisteddfod Ffermwyr Ifanc





"Ar ôl bod mewn ymarferion drwy'r wythnosau diwethaf, does dim posib i mi anghofio'r geiriau, nagoes?". Dyna (a'r geiriau!) oedd ar fy meddwl pan yr oeddwn i gefn llwyfan, 5 munud cyn mynd ar y llwyfan o flaen y wlad gyfan. Roedd y nerfau yn weithedol ac roedd llinell o chwys ar fy nhalcen. Roedd bron yn amser i mi berfformio'r ddeuawd doniol ac roedd Dyfan yr ochr arall i'r llwyfan, yn barod i gerdded ymlaen at flaen y llwyfan. Roedd fy mrawd, Ilan Jones, yn barod wrth y piano i gyfeilio i ni. Cerddon ni ymlaen, yn ein gwisgoedd Mynach,  a dechreuodd Ilan chwarae...

Efo pob jôc, ac amgrymiad, ymatebodd y gynulleidfa gan chwerthin, ac 'wwwian' pan yr oedd jôc yn  rhy sarhaus i rai pobl yn y gynulleidfa. Ar y cyfan, ymatebodd y gynulleidfa yn wych, pity nad oedd yr un o'r beirniaid wedi edrych arnom drwy'r perfformiad cyfan! Ar ôl sefyllian o gwmpas am awr neu ddwy, cawsom wybod ein bod wedi cael ail allan o'r wyth a gystadlodd!

Cafwyd diwrnod i'r brenin, â bron pawb yn siarad yn Gymraeg. Mae'n dda cael cymdeithasu yn y Gymraeg, gan ei fod yn hybu'r iaith ac yn cadw'r iaith yn fyw.

*Gan Erwan Powys Jones*

# Operation Christmas Child





Diolch i bawb a gyfranodd / Thank you to everyone who contributed

# Diwrnodau Pontio / Transition Days



Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â'r Campws Uwchradd ar gyfer dau ddiwrnod pontio yn ddiweddar. Cawsant gyfle i chwarae rôl a pherfformio mewn gweithdy drama dan arweiniad Mr Nic Ros. Yn ogystal cawsant gyfle i ddilyn amserlen ysgol gan fwynhau ystod o wersi amrywiol. Roedd yn gyfle arbennig i'r disgyblion gael blas ar fywyd yn yr ysgol uwchradd.

*Year 6 pupils visited the Secondary campus for two transition days recently. They had the opportunity to role play and perform in a drama workshop led by Mr Nic Ross and also had the opportunity to follow the school timetable, enjoying a host of different lessons. It was an ideal opportunity for the pupils to get a real taste of life in the Secondary school.*

## RSPB – Ynys Hir

Bu holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn yr RSPB yn Ynys Hir ddydd Iau, 24ain o Fedi. Gan mai coed yw thema'r Cyfnod Sylfaen y tymor hwn roedd hi'n gyfle i'r disgyblion gasglu dail, edrych ar yr amrywiaeth o goed a cheisio dod o hyd i drychfeilod. Wedi dychwelyd i'r ysgol, bu'r plant yn brysur yn creu collage gan ddefnyddio'r holl bethau roeddynt wedi eu casglu yn y goedwig. Diolch i Cara a Jenny am ddiwrnod bendigedig.

*All the foundation phase pupils visited Ynys Hir on Thursday, 24th September. Trees are the theme for the foundation phase this term therefore the pupils had an opportunity to collect leaves, look for different types of trees and try to find insects. After returning to school the pupils were busy creating a collage using all the different materials they collected in the woods. Thanks to Cara and Jenny for a wonderful day.*



# Adran Addysg Gorfforol - PE Department
# Cofiwch ein dilyn ar Twitter! @AGHyddgenPE



**Newyddion diweddar gan y timau merched Ysgol Bro Hyddgen**

Llongyfarchiadau i dîm merched U16 ar ôl chwarae gemau Pêl-droed yn erbyn Llanidloes a'r Drenewydd.

Buom yn ffodus iawn o gael tocynnau i fynd i weld Cymru yn erbyn Andorra lawr yng Nghaerdydd. Er ei fod yn noson hwyr, cafodd y disgyblion lawer o hwyl yn dathlu gyda'r chwaraewyr.

Bu disgyblion dan 18 yn cystadlu yn Nhwrnament Powys yn Llanfair Caereinion. Fe chwaraeodd y merched yn wych yn erbyn Llanfair Caereinion, Y Trallwng a Llanfyllin.

Mae'r merched dan 18 hefyd yn rhan o Gyngrhair Pêl-rwyd Machynlleth. Llongyfarchiadau iddynt ar ôl curo Tîm cyntaf Prifysgol Aberystwyth 14-9. Daliwch ati ferched!

***Latest news from the girls Teams***

*Congratulations to the U16 girls football team for competing against Llanidloes and Newtown.*

*We were very fortunate to receive tickets to watch the Wales vs Andorra game in Cardiff. Event though it was a late night, the pupils all enjoyed celebrating with the players.*

*The U18 girls competed in the Powys County Tournament in Llanfair Caereinion. The girls played fantastic against Llanfair Caereinion, Welshpool and Llanfyllin.*

*The U18 girls are also competing in the Machynlleth Netball League. They beat Aberystwyth University 1 team 14-9. Well played girls!*

# FFOTOMARATHON ABER 2015

Aeth criw o ddisgyblion y 6ed a blwyddyn 10 Adran Cyfryngau yr Ysgol i gystadlu yn Ffotomarathon Aberystwyth yn hanner tymor yr Hydref. Llongyfarchiadau iddynt i gyd, yn enwedig Eden Hayes-Wright a enillodd ei chategori gyda'i llun ar y thema Wyneb yn Wyneb.

*A number of 6th form and year 10 Media students competed in the Aber Ffotomarathon in the October half term. Congratulations to all, and especially to Eden Hayes-Wright for beating everyone in the competition with this photo on the theme Face to Face.*



# Adran Addysg Gorfforol - PE Department
## Cofiwch ein dilyn ar Twitter! @AGHyddgenPE



Pel droed blwyddyn 7
Builth H.S - Penglais - John Beddoes



Pel dored blwyddyn 8
Newtown - Llanidloes

Dyma ychydig o'r delweddau a dynnwyd gan flwyddyn 7 yn ystod y bore Ffotomarathon. Wedi iddynt gael cyfwlyniad byr i bwysigrwydd cyfansoddiad mewn ffotograffiaeth, dyma fynd ati i dynnu lluniau ar 6 thema. Mae'n amlwg fod yma wir botensial ffotograffig. Ennillwyd y wobr gyntaf (am gasgliad cyfan) gan Freya Canham. Gellir gweld y delweddau yma mewn lliw ar wefan yr Ysgol.

*Here are just a few of the beautiful images captured by Year 7 in their Ffotomarathon morning. After a brief introduction to the importance of composition in photography, they went about searching for images under 6 themes. It's clear that there is huge photographic potential here. The first prize (for the collection of 6) was won by Freya Canham. These images can be seen in colour on the School website.*

Colli o drwch blewyn wnaeth Bro Hyddgen yn erbyn Dyffryn Ardudwy ar ôl gem gyffrous iawn. Ddydd Mawrth, 17eg o Dachwedd chwaraeodd blwyddyn 7 a 8 gêm rygbi yn erbyn Ysgol Ardudwy, Harlech. Roedd y gêm yn rhan o gystadleuaeth rhwng ysgolion.

Yn yr hanner cyntaf cafodd Bro Hyddgen sawl cyfle ond yn y diwedd cafodd Guto Jones gais a gafodd ei throsi gan Ilan Hughes. Yna mi darodd Dyffryn Adrdudwy yn oô gyda chais a throsiad. Felly cyfartal oedd y sgôr ar ddiwedd y gêm ond roedd yn rhaid cael ennillydd felly aeth y ddau giciwr ati i anelu at y pyst.

Roedd y gwynt yn hyrddio ac yn anffodus cafodd Dyffryn Ardudwy un trosiad llwyddannus i ennill y gêm. Roedd y ddau dîm yn frwdfrydig iawn a cafodd rygbi da ei chwarae o ystried y tywydd glwlyb a gwyntog.

Gan: Gwion Morgan

# Adran Addysg Gorfforol - PE Department

## Cofiwch ein dilyn ar Twitter! @AGHyddgenPE



Blwyddyn 9 : Builth H.S - John Beddoes



Blwyddyn 10: Llanidloes - Y Drenwewydd - Penglais



Blwyddyn 11 a 9 Rygbi
Tywyn -Ardudwy-Berwyn-Gader

Ar y 5ed o Dachwedd, 2015, aeth grŵp o fechgyn Blwyddyn 9 i gymryd rhan mewn twrnament pêl droed yn Latham Park, Y Drenewydd. Roedd y twrnament yn cynnwys 5 tîm: Bro Hyddgen, Llanidloes, Y Drenewydd, Trallwng, Llanfyllin, Llanfair Caereinion gyda 8 chwaraewr o bob tîm yn chwarae ar un pryd. Roedd y tîm yn cynnwys Caden Lewis, Tomos Harding, Ethan Byrne, Douglas Horne, Harry Reeves, Guto Price, Sean Jones, Luke Ashworth, Teal Higgins, Kiran Ingham a Dafydd Jones.

Roedd y twrnament yn siawns dda i'r tîm godi hyder gan fod llawer o'r tîm yn chwarae i'r ysgol am y tro cyntaf. Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod ac roedd o'n brofiad cofiadwy cael chwarae yn Latham Park.

Ysgrifennwyd gan
Dafydd Jones
Disgybl Blwyddyn 9

Bu'r ysgol yn ffodus o gael sesiwn rygbi gyda Phêl Cwpan Rygbi'r Byd a oedd wedi eu harwyddo gan dîm Cymru. Diolch i fechgyn y chweched am gyflwyno ymarferion i ddisgyblion Bl.7. Diwrnod llwyddiannus dros ben!

*The school has been very fortunate to have a rugby session with the World Cup Rugby ball that was signed by the Welsh team. Thanks to the boys from the 6th form for taking the sessions for Year 7 pupils. A very successful day!*



# Croeso i Blant Newydd Cyfnod Sylfaen
## *Welcome to new Pupils in the Foundation Phase*

**Daisy**



*Dwi'n hoff iawn o chwarae/ I like playing.*

**Finnley**



*Dwi'n hoffi darllen/ I like reading .*

**Gethin**



Dwi'n hoffi chwarae hefo Logan/I like playing with Logan.

**Nona**



*Dwi'n hoffi amser stori/I like storytime .*

**Olivia**



*Dwi'n hoffi tynnu llun/I like drawing .*

**William**



*Dwi'n hoffi neud gwaith da/ I like doing good work .*

# *GWELD SÊR 2015 SEEING STARS*



Cynhaliwyd yr ail noson 'Gweld Sêr' i wobrwyo ffilmiau disgyblion yn Ngorffennaf 2015. Gwnaed y gwobrau gwych mewn llechen gan Mr Alex Roberts ac fe'u hysgythrwyd gan Mr Tegid Owen. Penderfynwyd y prif wobrau gan Banel, ac roedd un yn cael ei bleidleisio ar y noson gan y gynulleidfa.

*The second Seeing Stars to award student films was held in July 2015.*
*The fabulous slate awards were made by Mr Alex Roberts and engraved by Mr Tegid Owen.*

- Actor Gorau / Best Actor (Elan Duggan) PEDWAR BAN BYD
- Gwobr Cyfraniad Technegol / Technical Contribtion Award (George Horne) PEDWAR BAN BYD
- Poster Gorau / Best Poster (Jay Hughes) DOCTOR DRAKE
- Gwobr Golygu / Editing Award (Jay Hughes a Izak Zjalic) YR ANANFARWOLION
- Gwobr Actor Cynorthwyol / Best Supporting Actor (Deacon Price) A MIDSUMMER TERM'S DAYDREAM
- Ffilm Gorau / Best Film A MIDSUMMER TERM'S DAYDREAM

## Cofio am Ffrainc / Remembering France

Diolch i Mrs Haf Ap Robert a'r chweched dosbarth am baratoi gwasanaeth er mwyn cofio'r drychineb a fu yn Ffrainc yn ddiweddar; gwasanaeth teilwng tu hwnt.

Thank you to Mrs Haf Ap Robert and the sixth form for preparing the remembrance assembly to think and reflect on the tragedy that has happened in France.



# Diwrnod Plant Mewn Angen








Ar yr 14eg o Dachwedd cafwyd diwrnod di-wisg ysgol ar y campws uwchradd er mwyn codi arian ar gyfer Plant Mewn Angen ar y thema Pudsey. Yn ogystal roedd yna gwis yn y neuadd amser cinio ble gwelwyd timoedd o athrawon yn cystadlu yn erbyn ei gilydd gan ateb cwestiynau ar amrywiaeth o destunau fel cerddoriaeth a gwyddoniaeth. Roedd hanner y tim yn gorfod rhedeg cwrs rhwystrau.

Ar un tim roedd Ms Currie ac Mr Biffin yn ceisio eu gorau i ennill y rownd gwestiynau a Mr Owen a Mr Rowlands yn gwibio trwy'r gydran corfforol. Yn anffodus doedd eu hymdrechion ddim yn ddigon ac enillwyd y cwis gan Mrs Evans a Mr Dafydd Ellis (cwestiynau) gyda Mr Llifon Ellis a Dafydd Duggan (dirprwy brif ddisgybl) yn rhedeg. Cafwyd llawer o hwyl gan bawb a codwyd bron i £250 i'r elusen.

*On the 14th of November the school had a non uniform day in aid of Children in Need with a Pudsey theme. There was also a quiz in the hall lunch time where teams of teachers went head to head answering questions on a range of topics including music and science. The other half of the team had to run an obstacle course.*

*On one team were Ms Currie and Mr Biffin trying their best to win the questions round with Mr Owen and Mr Rowlands whizzing through the physical element. Unfortunately their efforts were not enough and the quiz was won by Mrs Evans and Mr Dafydd Ellis (questions) with Mr Llifon Ellis and Dafydd Duggan (Deputy head pupil) running. Much fun was had by all and nearly £250 was raised.*

# Adran Ddaearyddiaeth / Geography Department





Bu Myfyrwyr Daearyddiaeth Blwyddyn 13 yn ymweld â Phrifysgol Aberystwyth fel rhan o gwrs CYDAG yn ddiweddar, ble cafwyd y cyfle i wrando ar ddarlithoedd o'r Brifysgol a chymryd rhan mewn gweithgareddau GIS. Profwyd hefyd fywyd fel myfyriwr drwy aros dors nos yn neuadd Penglais.
Roedd hyn y gyfle gwych i alluogi'r myfyrwyr ehangu eu sylfaen gwybodaeth o'r Pwnc gogyfer eu arholiadau allanol mis Mehefin nesaf. Hoffai'r Adran ddiolch yn fawr i brifysgol Aberystwyth am y cyfle gwych yma- mae'n wir dweud fod pawb wedi mwynhau!

Ysgol Bro Hyddgen Year 13 Geography Students visited Aberystwyth University's Geography Department as part of a CYDAG course, when they were able to undertake GIS activities, listen to Elective Modular Lectures form the University and experience life as a student at Aberystwyth staying overnight in Penglais Hall of Residence. This was an excellent opportunity allowing students to extend their breadth of knowledge of content required for their examinations in June. The Department would like to thank Aberystwyth University for this visit and for the rich experiences the Sixth form students gained from this.

## Gŵyl Glyndŵr

*Bu plant yr Adran Iau yn ymweld â Senedd-dy Owain Glyndwr yn ddiweddar i fwynhau perfformiad arbennig am hanes yr arwr cenedlaethol. Ysgrifennwyd y sioe gan Eleri Twynog, a Carwyn Jones oedd yn chwarae rôl Owain Glyndwr. Roedd yn gyfle gwych i'r plant gael cymryd rhan yn y sioe a dysgu am hanes Owain Glyndwr mewn ffordd ddiddorol a byw.*

The junior pupils visited the Owain Glyndwr parliament to enjoy a special performance about the national hero. The show was written by Eleri Twynog and Carwyn Jones played the role of Owain Glyndwr. It was an ideal opportunity for the pupils to take part in the show and learn about the history of Owain Glyndwr in a fun and enjoyable way.



# Canlyniadau TGAU Ysgol Bro Hyddgen 2015



## Canlyniadau TGAU cyntaf llwyddiannus yn Ysgol Bro Hyddgen

- 5 A* i C/cyfateb a Lefel 2– 97.2%
- 5 A* i C yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg – 61%
- 5 A*/A yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg – 9.7%



Yn dilyn canlyniadau Safon Uwch da iawn wythnos diwethaf, mae Ysgol Bro Hyddgen unwaith eto'n dathlu'r wythnos hon gyda chanlyniadau TGAU calonogol iawn. Mae hwn yn dod a blwyddyn gyntaf Ysgol Bro Hyddgen i derfyn hynod o ganmoladwy.

Gwelwyd 100% o ddisgyblion y flwyddyn yn llwyddo i ennill o leiaf 4A*-C neu gyfatebol, a 97.2% yn ennill 5A*-C/cyfatebol i Lefel 2. Roedd nifer sylweddol o'r graddau a gyflawnwyd yn A*/A – llwyddodd bron 35% o'r flwyddyn i sicrhau o leiaf un gradd A*. Roedd myfyrwyr oedd yn cyfuno cyrsiau galwedigaethol gyda'u TGAU hefyd wedi llwyddo i safon uchel iawn, gyda 42.2% yn ennill gradd Anrhydedd*/Anrhydedd.

Llwyddodd pob adran i sicrhau llwyddiannau sylweddol, ac mae hyn yn adlewyrchiad teilwng o waith caled y staff dysgu i gyd. Yn y pynciau craidd gwelwyd Cymraeg Iaith Gyntaf yn llwyddo i ennill 72%, 71% yn Saesneg, 67% ym Mathemateg a gwelwyd llwyddiant arbennig o 100% A*-C neu gyfatebol mewn un neu fwy o'r gwyddorau.

Gwelwyd llwyddiannau arbennig yn cynnwys:

- Ella White: 8A*, 2A, 1C, Anrhydedd mewn Mathemateg Ychwanegol, a Bagloriaeth Cymru
- Niamh Cumming: 6A*,4A, 1B, Anrhydedd mewn Mathemateg Ychwanegol, a Bagloriaeth Cymru
- Biddy Purser-Healy: 6A*, 2A, 3B, Pasio mewn Mathemateg Ychwanegol, a Bagloriaeth Cymru
- Mared Ingram: 4A*, 7A, Clod mewn Mathemateg Ychwanegol, a Bagloriaeth Cymru Meinir Jones: 4A*, 6A, 1B, Anrhydedd mewn Mathemateg Ychwanegol, a Bagloriaeth Cymru
- Natalie Watson: 4A*, 6A, Clod mewn Mathemateg Ychwanegol, a Bagloriaeth Cymru Alfie Horton: 2A*, 4A, 2B, 2C Anrhydedd mewn Mathemateg Ychwanegol, a Bagloriaeth Cymru
- Emily Scutt: 2A*, 1A, 4B, 2C
- Mia Davies, 2A*, 5B, 4C, a Bagloriaeth Cymru
- Llywelyn Jones: 1A*, 3A, 7B, Clod mewn Mathemateg Ychwanegol, a Bagloriaeth Cymru

Dywedodd y Pennaeth, Mr Dafydd Jones: "Rwyn hapus iawn gyda'r set gyntaf yma o ganlyniadau a welwyd yn Ysgol Bro Hyddgen heddiw. Dymunaf longyfarch y disgyblion ar eu llwyddiannau ardderchog, a rwy'n gwerthfawrogi gwaith caled y staff yn fawr, ynghyd a chefnogaeth barhaol y rhieni. Edrychaf ymlaen i groesawu llawer iawn o'r myfyrwyr hyn yn ol i'r chweched flwyddyn nesaf, lle bydd nifer o ddisgyblion o du hwnt i'n dalgylch yn ymuno gyda ni; yn wir, ym mis Medi, rydym yn rhagdybio y bydd gennym y chweched dosbarth mwyaf yn hanes addysg uwchradd ym Machynlleth."

# GCSE results at Ysgol Bro Hyddgen



## Very successful first GCSE results day at Ysgol Bro Hyddgen

- 5 A* to C grades/Level 2 equivalent – 97.2%
- 5 A* to C grades including Welsh/English and Maths – 61%
- 5 A* to A grades including Welsh/English and Maths – 9.7%



*Following a very pleasing set of A-level results last week, Ysgol Bro Hyddgen are again celebrating this week with an outstanding set of GCSE results. This is a very praiseworthy end to the first year at Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth.*

*100% of the pupils in the cohort have achieved at least 4A*-C or equivalent, and 97.2% achieved 5A*-C/Level 2 equivalent. A significant number of the grades achieved were A*/A grades or equivalent – nearly 35% of the cohort achieved at least one A*. Students who have combined vocational qualifications with their GCSEs have also achieved to a very high standard.*

*All departments have achieved overall significant successes, and this is a reflection of the hard work of all the teaching staff. Departmental achievements in the core subjects include Welsh First Language at 72%, English at 71% and Mathematics at 67%, and an impressive 100% pass rate of A*-C or equivalent was achieved in one or more of the sciences.*

*Notable achievements include:*

- *Ella White: 8A*, 2A, 1C, Distinction in Additional Mathematics, and the Welsh Baccalaureate*
- *Niamh Cumming: 6A*,4A, 1B, Distinction in Additional Mathematics, and the Welsh Baccalaureate*
- *Biddy Purser-Healy: 6A*, 2A, 3B, Pass in Additional Mathematics, and the Welsh Baccalaureate*
- *Mared Ingram: 4A*, 7A, Merit in Additional Mathematics and the Welsh Baccalaureate*
- *Meinir Jones: 4A*, 6A, 1B, Distinction in Additional Mathematics and the Welsh Baccalaureate*
- *Natalie Watson: 4A*, 6A, Merit in Additional Mathematics, and the Welsh Baccalaureate*
- *Alfie Horton: 2A*, 4A, 2B, 2C, Distinction in Additional Mathematics, and the Welsh Baccalaureate*
- *Emily Scutt: 2A*, 1A, 4B, 2C*
- *Mia Davies, 2A*, 5B, 4C, and the Welsh Baccalaureate*
- *Llywelyn Jones: 1A*, 3A, 7B, Merit in Additional Mathematics, and the Welsh Baccalaureate*

*Headteacher, Mr Dafydd Jones said: "I'm very happy with the first set of GCSE results seen at Ysgol Bro Hyddgen today. I wish to congratulate the students on their excellent achievements and I'm grateful to the staff for their hard work, and the parents for their continued support. I look forward to welcoming many of our students back to our sixth form next year, where they'll be joined by several new students from beyond the school's catchment area; indeed, in September, we foresee that we'll have the largest sixth form in the history of secondary education in Machynlleth".*

# Canlyniadau Level A 2015



Ymysg y llwyddiannau yn Safon Uwch roedd:

- Rhys Meirion Roberts – Anrhydedd+/A* AA B
- Lliwen Glwys Jones – AABB
- Lowri Grug Jones – A*AAA
- Ffion Tomlinson – A*AAB
- Harri Hughes – A*AAC
- Connor Jones – A*ABD
- Lowri Faber – A*A Anrhydedd+/A*Anrhydedd/A C



Bu Ysgol Bro Hyddgen yn dathlu'r canlyniadau Safon Uwch cyntaf erioed eleni

- 100% wedi pasio A*-E mewn Safon Uwch/cymwysterau galwedigaethol.
- 75.2% o'r graddau a ddyfarnwyd yn A*- C (heb gynnwys Bagloriaeth Cymru).
- 100% o ddisgyblion blwyddyn 13 wedi ennill 2A*-E neu gyfatebol.
- 64.7% o'r myfyrwyr wedi ennill 2 A*- C yn cynnwys Bagloriaeth Cymru.

Ar derfyn y flwyddyn gyntaf fel Ysgol Bro Hyddgen, mae staff a myfyrwyr yr ysgol yn ymfalchio yng nghanlyniadau Safon Uwch yr ysgol. Roedd y pynciau a lwyddodd i ennill 75%+ A*-B yn cynnwys Mathemateg, Celf a Dylunio (75% A*), Electroneg, Ffrangeg, Daearyddiaeth a Chymraeg Iaith Gyntaf.

Mae'r ysgol yn hyderus bod mwyafrif helaeth y myfyrwyr wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau cymwysterau i fynychu llefydd ar eu cyrsiau Addysg Uwch dewisol, gyda llawer yn mynd i astudio ar gyrsiau cystadleuol yn rhai o brifysgolion uchaf eu parch yn y wlad. Bydd y disgyblion yn mynd i astudio ar gyrsiau gradd mewn pynciau mor amrywiol a Throseddeg, Cynhyrchu Ffilm, Peirianneg Trydannol, Amaeth ac Astudiaethau Busnes, Astudiaethau Amgylcheddol ac Addysg, ynghyd a chyrsiau mwy confensiynol gan gynnwys Cymraeg Proffesiynol, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, Gwyddoniaeth Cyfrifiadurol, Ffrangeg, Sbaeneg, Ffiseg, Mathemateg a Daearyddiaeth mewn prifysgolion ar draws y wlad.

Roedd y Pennaeth, Mr Dafydd Jones yn awyddus iawn i ganmol yr holl waith caled oedd wedi'i gyflawni dros y ddwy flynedd ddiwethaf gan y myfyrwyr, staff a rhieni wrth sicrhau'r canlyniadau canmoladwy hyn.

"Mae'r canlyniadau rhagorol hyn yn adlewyrchu gwaith caled ac ymroddiad y myfyrwyr, rhieni a staff Ysgol Bro Hyddgen i sicrhau bod pobl ifanc y gymuned hon yn cael y cyfleoedd bywyd gorau posib wrth anelu am eu llwybrau gyrfaoedd dewisol. Dymunaf longyfarch yr holl fyfyrwyr a dymunaf y gorau iddynt wrth iddynt fynd i'r brifysgol neu ddechrau gweithio. Edrychaf ymlaen yn fawr wrth glywed am eu llwyddiannau yn y dyfodol. Rwyn falch hefyd i allu llongyfarch y disgyblion sydd ym mlwyddyn 12 gan eu bod hwythau hefyd wedi sicrhau canlyniadau UG ardderchog – mae hyn yn argoeli'n dda iawn at ganlyniadau da iawn flwyddyn nesaf. Yn yr oes hon o doriadau ariannol cynyddol a dyfodol bregus i ysgolion a chweched dosbarth, mae'n bleser gweld Ysgol Bro Hyddgen ar ddiwedd ei blwyddyn gyntaf fel ysgol 3-18 yn dangos ei gwerth i bobl ifanc y dalgylch a thu hwnt. Edrychwn ymlaen eto flwyddyn nesaf i gynyddu maint y chweched dosbarth, ac eto hefyd i groesawu nifer sylweddol o fyfyrwyr newydd i ymuno gyda ni yn eu hastudiaethau ol-16."

Ymysg y disgyblion mwyaf llwyddiannus yn yr UG:

- Rhun Bleddyn - AAC
- Dafydd Duggan – AAC
- Rhian Griffiths – AAA
- Beca Wyn Jones – AAAC
- Marian Jones-Evans – ABBB
- Aron Parry – AAAA
- Joel Tawiah - ABC

# A Level Results 2015





## Among the highest performers at A level were:

- Rhys Meirion Roberts – Distinction+/A* AA B
- Lliwen Glwys Jones – AABB
- Lowri Grug Jones – A*AAA
- Ffion Tomlinson – A*AAB
- Harri Hughes – A*AAC
- Connor Jones – A*ABD
- Lowri Faber – A*A Distinction+/A*Distinction/A C



Ysgol Bro Hyddgen is today celebrating its very first set of A Level results:

- 100% pass rate of A*-E at A level and in vocational qualifications.
- 75.2% of the awarded grades are in the A*- C range (not including the Welsh Baccalaureate).
- 100% A*-B passes in the Welsh Baccalaureate.
- Overall, 100% of Year 13 students have achieved 2 A*- E grades or equivalent.
- 64.7% of the students have 2 A*- C grades including the Welsh Baccalaureate.

In its first year as Ysgol Bro Hyddgen staff and students have been delighted with this year's Sixth Form results. Subjects achieving 75%+ A*-B include Mathematics, Art and Design (75% A*), Electronics, French, Geography and Welsh First Language.

The school is confident that the vast majority of students have qualified successfully for their chosen Higher Education courses, with many achieving places on very competitive courses at some of the most respected universities. The students' qualifications have enabled them to start studying for degree courses in subjects as diverse as Criminology and Criminal Investigation, Film and Movie Image Production, Electrical Engineering, Agriculture with Business Studies, Environmental Sciences and Education, as well as more conventional courses including Professional Welsh, English and Creative Writing, Computer Science, French, Spanish, Physics, Mathematics and Geography in universities across the country.

A delighted Headteacher, Mr Dafydd Jones, was keen to praise all the hard work that has gone into preparing for these results over the past two years by the staff, the students and the parents.

"These are superb results and show the hard work and commitment of the students, parents and Ysgol Bro Hyddgen's staff to ensure the young people of our community have the best possible life chances for their chosen career paths. I would like to congratulate all the students and wish them the very best as they move on to university or into employment. I look forward very much to hearing about their continued success in the future. I am also delighted that not only are the A2 results so praiseworthy, but the AS results are also of an excellent standard and augur very well for next year. In this era of increasing financial cut-backs and potential closures of schools and sixth forms, it's so pleasing to see Ysgol Bro Hyddgen at the end of the first year as a 3-18 school displaying its value and worth to the young people of its catchment and beyond. We look forward again next year to increasing the size of our sixth form, and again welcoming a significant number of new students from further afield to join us in their post 16 studies."

Among the high flyers at AS were:

- Rhun Bleddyn - AAC
- Dafydd Duggan – AAC
- Rhian Griffiths – AAA
- Beca Wyn Jones – AAAC
- Marian Jones-Evans – ABBB
- Aron Parry – AAAA
- Joel Tawiah - ABC



Bore Coffi Macmillan Campws Uwchradd



Sioe Nadolig "Iasoer" Campws Cynradd